

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty'r Tywysog Siarl – Gwasanaethau
Mamolaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad arolygu: 4 – 6 Tachwedd 2019

Dyddiad cyhoeddi: 7 Chwefror 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	3
2.	Crynodeb o'n harolygiad	4
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	6
	Ansawdd profiad y claf	7
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	27
4.	Beth nesaf?	33
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	34
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	35
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	36
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	46

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty'r Tywysog Siarl ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 4, 5 a 6 Tachwedd 2019. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru¹.

Ymwelwyd â'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 21 – ward gynenedigol (cyn esgor) a ward ôl-enedigol (ar ôl esgor) gyda 24 o welyau
- Uned a arweinir gan fydwragedd – gyda thair ystafell eni a dau bwl geni
- Ward esgor – (yn ystod y cyfnod esgor) gyda phedair ystafell esgor ac un pwll geni
- Ardal asesu brysbennu
- Dwy theatr llawdriniaethau.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un obstetrydd ymgynghorol a dwy fydwraig) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ <https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth>

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu gofal i'r cleifion mewn ffordd barchus ac urddasol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o welliannau yr oedd angen eu gwneud er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol bob amser. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau bod gweithgareddau o ddydd i ddydd ar y wardiau yn cael eu goruchwyllo'n ddigonol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y menywod a'u teuluoedd yn gadarnhaol am eu gofal a'u triniaeth
- Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, a gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- Roedd trefniadau ar waith i roi cymorth profedigaeth a chymorth amenedigol i'r menywod a'u teuluoedd
- Arweinyddiaeth gref gan y bydwagedd a chymorth da yn cael ei gynnig i'r staff.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Archwilio cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig a chleifion sy'n oedolion yn rheolaidd
- Lliniaru risgiau ynghylch herwydio babanod
- Adolygu'r broses o ragnodi meddyginiaeth i ysgogi'r cyfnod esgor
- Storio meddyginiaethau
- Adolygu polisiau a gweithdrefnau
- Rhai agweddau ar gadw cofnodion cleifion.

- Argaeledd gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty'r Tywysog Siarl wedi'i leoli ym Merthyr Tudful ac mae'n rhan o'r gwasanaethau a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cafodd y bwrdd iechyd ei sefydlu ar 1 Ebrill 2019 ac mae'n darparu gwasanaethau yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae dalgylch y bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn cynnwys tua 450,000 o bobl. Darperir gwasanaethau gofal aciwt, canolraddol, sylfaenol, cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl. Caiff gwasanaethau eu darparu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys tri ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i bob menyw a'i theulu sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth yn ardal y bwrdd iechyd ddewis o blith nifer o leoliadau geni. Mae'r rhain yn cynnwys geni yn y cartref, uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd, gofal a arweinir gan fydwragedd mewn unedau bydwreigiaeth ac unedau obstetrig.

Ym mis Ebrill 2019, daeth gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd (wedi'u lleoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl) yn destun mesurau arbennig² o dan gyfarwyddyd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn dilyn adolygiad annibynnol³ o wasanaethau mamolaeth a gynhaliwyd gan Goleg Brenhinol y Bydwagedd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

²<https://llyw.cymru/gwasanaethau-mamolaeth-cwm-taf-morgannwg-mewn-mesurau-arbennig-wrth-i-adroddiad-nodi-methiannau>

³ <https://llyw.cymru/adolygiad-o-wasanaethau-mamolaeth-bwrdd-iechyd-prifysgol-cwm-taf>

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y cleifion yn gadarnhaol am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth ac roeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion. Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn cynnal urddas cleifion. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r dull o ddyrannu gwelyau cynenedigol/ôl-enedigol er mwyn cynnal urddas a pharch y cleifion tra roeddent yn cael gofal.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom geisio dosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, teuluoedd a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod y tîm Gwasanaethau Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) a leolir yn yr ysbyty eisoes wedi cynnal cyfweiliadau ac wedi cwblhau holiaduron gyda chleifion yn yr uned ar y diwrnod y gwnaethom gyrraedd. Er mwyn atal y cleifion rhag gorfod cwblhau holiadur tebyg arall, cawsom y data a gafwyd gan dîm PALS i'w hadolygu. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiaduron o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned famolaeth yn ardderchog neu'n dda iawn. Dywedodd y cleifion a'u teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael profiad da ym mhob rhan o'r uned. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Byddwn yn argymhell yr uned famolaeth y tro hwn. Mae wedi gwella'n sylweddol ers i'm plentyn gael ei eni 5 mlynedd yn ôl”.

“Mae'r staff a'r bydwagedd wedi bod yn wych drwy gydol yr amser”.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod yn gallu siarad ag aelodau priodol o'r staff am unrhyw bryderon ac ofnau a all fod ganddynt.

Cadw'n iach

Gwelsom fod gwybodaeth ddigonol yn cael ei harddangos i gleifion ar yr hysbysfyrddau a bod taflenni ar gael yn hawdd er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion am sut i gadw'n ddiogel ac yn iach. Er bod yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig lle roedd defnyddio anwedd (vapour)/e-sigaréts wedi'i wahardd hefyd, ni welsom lawer o wybodaeth mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu yn yr uned.

Roedd deunydd hybu iechyd llawn gwybodaeth yn cael ei arddangos mewn perthynas â bwydo ar y fron, dulliau lleddfu poen yn ystod y cyfnod esgor, cyngor ar gyswllt croen â chroen, iechyd meddwl ôl-enedigol a chyngor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl amenedigol sefydledig ar gael os oedd angen.

Gwelsom lechen ar y wal yn datgan bod yr uned wedi cael ei hachredu gan UNICEF⁴ yn 2017 am fod yn gyfeillgar i fabanod. Caiff yr achrediad ei adolygu bob tair blynedd sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn dosturiol, yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Gwelsom fod y staff yn rhoi o'u hamser i gefnogi cleifion pan fo angen.

Gwelsom y staff yn hybu preifatrwydd ac urddas wrth helpu'r cleifion gyda'u gofal personol. Gwnaethom edrych ar y dogfennau gofal ac ni welsom unrhyw feysydd

⁴ <https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/> - Mae'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn trawsnewid gofal iechyd i fabanod, eu mamau a theuluoedd yn y DU, fel rhan o bartneriaeth fyd-eang ehangach rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac Unicef.

a oedd yn peri pryder ynghylch gofal ag urddas. Fodd bynnag, gwelsom un achos lle roedd prinder gwelyau wedi'i gofnodi ar y wardiau cynenedigol ac ôl-enedigol. O ganlyniad, byddai cleifion yn cael eu dyrannu'n amhriodol i welyau mewn ardaloedd anaddas megis cleifion beichiog yn cael eu rhoi mewn cilfannau lle roedd cleifion a'u babanod yn cael gofal.

Roedd cyfleusterau en-suite yn rhai o'r ystafelloedd geni ac ôl-enedigol a oedd yn helpu i hybu cysur ac urddas y cleifion yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Lle nad oedd cyfleusterau en-suite ar gael, roedd cyfleusterau toiledau a rennir ar gael gerllaw.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant profedigaeth ac y byddent yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r polisïau cywir, er mwyn eu galluogi i roi gofal priodol i unrhyw rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Roedd ystafell brofedigaeth bwrpasol yn yr uned. Gwelsom fod yr ystafell hon yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion a'u teuluoedd. Os oedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio, dywedwyd wrthym y byddai ystafell ôl-enedigol wag ar gael. Dywedwyd wrthym fod bydwaig profedigaeth arweiniol yn gweithio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd i gynnig cymorth a chynngor yn ystod oriau gwaith craidd. Cododd rhai aelodau o'r staff bryderon am y ffaith bod un aelod o staff arweiniol yn darparu cymorth i'r holl leoliadau mamolaeth mewn ardal ddaearyddol eang. Fodd bynnag, rhoddwyd sicrwydd i ni y byddai'r arweinydd profedigaeth yn cyflwyno bydwagedd o fand pump ar gyfer rolau newydd hyrwyddwyr profedigaeth yn Ysbyty'r Tywysog Siarl er mwyn sicrhau bod cymorth ac arweiniad pellach ar gael.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dull o ddyrannu gwelyau yn y wardiau cynenedigol ac ôl-enedigol yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau y cynhelir urddas y cleifion.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. O ganlyniad, roedd yn hawdd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i dderbyn gofal.

Roedd manylion staffio dyddiol yr uned wedi'u harddangos yn yr uned i roi gwybod i'r cleifion pwy fyddai'n gofalu amdanynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn Saesneg, gydag ychydig o wybodaeth yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym fod rhaglen dreigl ar waith i sicrhau

bod yr holl wybodaeth yn ddwyieithog, a bod y wybodaeth bresennol yn cael ei chyfieithu ar hyn o bryd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellir cael gafael ar y rhain. Gellid adnabod bydwagedd sy'n siarad Cymraeg o'r logo siaradwr Cymraeg⁵ ar eu gwisg neu laniard.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n hyderus i ofyn am help neu gyngor pan oedd angen cymorth arnynt. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd fod y bydwagedd a'r staff meddygol wedi gwranddo arnynt yn ystod eu harhosiad.

Gwelsom fod y staff yn ceisio cynnal preifatrwydd cleifion ym mhob rhan o'r uned wrth rannu gwybodaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llawer o breifatrwydd yn y cilfannau cynenedigol ac ôl-enedigol am eu bod mor fach, a oedd yn golygu y gallai unrhyw sgysiau cyfrinachol a gynhelid yn y cilfannau hyn gael eu clywed yn hawdd gan eraill. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi ei bod yn arfer cyffredin i'r staff gau drysau ystafelloedd ymgynghori wrth ddarparu gofal, er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom fod staff yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau newid sifft. Yn y cyfarfodydd trosglwyddo amlddisgyblaethol llawn y buom yn bresennol ynddynt gwelsom fod y broses yn ddistrwythur a tharfwyd arni sawl gwaith. Gwelwyd nad oedd gwybodaeth am y cleifion a oedd yn cael eu trosglwyddo yn cael ei chasglu na'i chofnodi'n weithredol, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth fod taflen presenoldeb yn cael ei defnyddio'n gyson. Fodd bynnag, gwelwyd dystiolaeth o bresenoldeb meddygon ymgynghorol ac roedd cofnodion presenoldeb bydwagedd hefyd yn dda.

5 Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi'r siaradwyr Cymraeg yn eich tîm. Os yw rhywun yn gwisgo bathodyn, neu laniard, mae hyn yn dangos y gall sgwrsio yn Gymraeg.

Roedd gan bob ward fwrdd cipolwg ar statws cleifion⁶ a gwelwyd ei fod yn cael ei ddiweddar'u'n gyson.

Roedd llinell iaith ar gael ar gyfer y cleifion hynny nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a oedd yn golygu eu bod yn gallu derbyn gofal a fyddai'n briodol i'w hanghenion. Gwelsom hefyd fod anghenion cyfathrebu, gan gynnwys unrhyw angen am ddehonglwyr neu sicrhau bod y wybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill, yn cael eu hasesu'n briodol yn ystod apwyntiadau cynenedigol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses a strwythur cyfarfodydd trosglwyddo amlddisgyblaethol yn cael eu hadolygu a'u gwella.

Gofal amserol

Gwelsom fod y staff yn gymwynasgar iawn ac y byddent yn diwallu anghenion y cleifion mewn ffordd amserol. Dywedodd y staff wrthym hefyd y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd er mwyn diwallu eu hanghenion personol, maeth a chysur. Gwelwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym. Gwelsom hefyd fod clychau galw yn hygyrch iawn ac yn cael eu hateb yn brydlon.

Gwelsom fod arsylwadau cleifion yn cael eu cofnodi ar siart a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn nodi'r cleifion a allai fynd yn sâl neu a allai ddatblygu sepsis⁷. Roedd y staff yn ymwybodol o'r adnodd sgrinio a'r system rhoi gwybod am sepsis, a oedd yn sicrhau ei bod yn bosibl cymryd camau priodol ac amserol.

⁶ Mae'r Bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty er mwyn arddangos gwybodaeth bwysig am gleifion megis: lefelau risg o haint, symudedd, llif derbyn a rhyddhau, nifer y gwelyau llawn, timau nyrsio a meddygol, ymhlith pethau eraill.

⁷ Adwaith sy'n peryglu bywyd i haint yw sepsis. Mae'n digwydd pan fydd y system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau'r corff.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom ei bod yn hawdd i bawb ddefnyddio'r cyfleusterau ym mhob rhan o'r uned.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn yr uned a gwelsom dystiolaeth fod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynnedigol. Diben hyn oedd sicrhau bod y credoau a'r dewisiadau hynny'n cael eu parchu yn ystod eu gofal beichiogrwydd, esgor ac ôl-enedigol. Gwelsom fod cynlluniau gofal yn hybu annibyniaeth pobl yn seiliedig ar asesiad o'u galluoedd.

Gwelsom fod y staff meddygol a'r bydwragedd yn hybu gofal a dewisiadau unigol i gleifion. Roedd cymorth gan bartner geni yn cael ei hybu hefyd. Roedd pob un o'r ystafelloedd geni yn cynnwys adnoddau digonol. Roedd tair ystafell eni yn cynnwys pwll geni wedi'i blymio y gallai'r cleifion ei ddefnyddio wrth esgor.

Hawliau pobl

Gwelsom fod teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael gwybod am ddewisiadau'r cleifion.

Roedd yr ysbyty'n darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd ganddo gapel ysbyty. Dywedwyd wrthym hefyd am drefniadau i alluogi cleifion o grefyddau gwahanol i ddefnyddio'r ystafelloedd gweddïo er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan y bwrdd iechyd am y weithdrefn i'r cleifion ei dilyn os oedd ganddynt unrhyw bryderon roeddent yn dymuno eu codi. Fodd bynnag, nid oedd fawr ddim gwybodaeth ar gael yn yr uned i'r cleifion. Dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym fod rheolwyr wardiau'r uned yn gwbl ymwybodol o

broses y GIG ar gyfer rheoli pryderon – sef Gweithio i Wella⁸, a sut i ymdrin â chwynion. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod sut i ddelio â chwynion ond nad oeddent fel rheol yn rhoi manylion i gleifion am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)⁹ a allai gynnig gwasanaethau eirioli a chymorth i godi pryder am eu gofal.

Ar ôl cael cwyn anffurfiol, dywedwyd wrthym y byddai'r prif fetronau yn cysylltu â'r claf i gynnig trafod y mater, ac y byddent hefyd yn hyrwyddo'r weithdrefn gwyno ffurfiol pe bai am ddilyn y llwybr hwn. Eglurodd y staff eu bod yn gwneud hyn er mwyn mynd i'r afael â phryderon, ond hefyd i dynnu sylw at unrhyw faterion ymarfer y gall fod angen eu datrys. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu parhaus â chleifion a'u teuluoedd drwy gydol unrhyw achos lle roedd pryder wedi dod i law, a'u bod yn cael y cyfle i gyfarfod ag uwch-aelodau o'r staff er mwyn trafod eu pryderon ymhellach.

Gwnaethom siarad â'r tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALS) a ddywedodd mai ei rôl oedd sicrhau y rhoddir pwyslais ar gael barn ar y gofal a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Esboniodd y tîm fod unrhyw wybodaeth a oedd yn ymwneud â'r uned famolaeth yn cael ei rhannu â thimau'r ward.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio adborth cleifion yn rheolaidd drwy gardiau adborth neu holiaduron, gan gynnwys y cerdyn sylwadau 'dweud eich dweud' a oedd yn cael ei roi i bob menyw ar ôl rhoi genedigaeth. Mae tîm yr uwch-reolwyr yn gweithredu ar y rhain a chânt eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd gwersi a ddysgwyd ac arfarniadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod gwybodaeth yn disgrifio sut y gall cleifion a theuluoedd/gofalwyr godi pryder am eu gofal yn cael ei harddangos yn glir, a'i bod ar gael yn hawdd iddynt.

⁸ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

⁹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

- Bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion a theuluoedd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwnaethom nodi naw pryder uniongyrchol yn ystod yr arolygiad. O ganlyniad i hynny, ni chawsom sicrwydd y gellid darparu gofal cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser. Mae hyn am i ni nodi materion ynglŷn â'r archwiliadau o'r cyfarpar dadebru, trefniadau storio meddyginiaeth yn ddiogel, lliniaru risgiau o ran herwgydio babanod yn yr uned, anghysondebau wrth fonitro curiad calon y ffetws, diogelwch cofnodion cleifion a phryderon ynghylch rhagnodi meddyginiaeth i ysgogi cyfnod esgor.

Gwnaethom hefyd nodi meysydd i'w gwella o ran atal a rheoli heintiau.

Gwelsom fod diogelwch cleifion yn cael ei hybu mewn cynlluniau gofal dyddiol ac ategwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a welsom.

Roedd y gwasanaeth yn dilyn trefniadau priodol ar gyfer gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ymddengys fod yr uned yn lân, wedi'i goleuo'n briodol ac wedi'i hawyru'n dda. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda.

Gwelsom fod drysau'r ystafell amlbwrpas a'r ystafell olchi yn lân ac yn cael eu dal ar agor ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom hefyd gypyrddau meddyginiaeth a chypyrddau nwy meddygol a oedd wedi'u gadael heb eu cloi yn ystod ein taith gychwynnol o gwmpas yr uned. Teimlwyd y gallai hyn beri risg bosibl i ddiogelwch y cleifion a hefyd risg i drefniadau storio meddyginiaeth a gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion yn briodol ac yn ddiogel. Codwyd y materion hyn ar adeg yr arolygiad a, lle bynnag y bo'n bosibl, cawsant eu hunioni ar unwaith. Rydym wedi cynnwys manylion pellach am storio meddyginiaeth yn ddiogel a

gwybodaeth cleifion yn yr adrannau Rheoli Meddyginiaethau a Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu.

Roedd y tîm arolygu yn ystyried diogelwch babanod newydd-anedig yn yr ystafelloedd esgor ac ar Ward 21. Er bod mesurau diogelwch ar waith er mwyn sicrhau bod babanod yn cael eu hamddiffyn drwy ddefnyddio system dagio, nodwyd gennym y byddai'r staff weithiau yn atal gweithrediad y system mynediad drwy ddrysau gymhleth a oedd yn agor pob drws mynediad i'r uned, megis wrth drosglwyddo claf ar frys i'r theatr. Ar yr adegau hyn, nid oedd unrhyw system fonitro ychwanegol ar waith er mwyn nodi pwy oedd yn mynd i mewn i'r uned ac yn ei gadael. Dywedwyd wrthym fod ymarfer herwydio wedi cael ei gynnal yn gynharach yn y flwyddyn, ond ni allem fod y sicr bod y materion a nodwyd gennym wedi cael eu hystyried bryd hynny nac ers hynny. Gwelsom hefyd, er bod system dagio ar waith, nad oedd hyn bod amser yn cael ei ddogfennu yn y nodiadau. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn atodiad B.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn yr uned ar gyfer cael cymorth meddygol mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf. Gwelsom fod seiniwr brys a chlychau galw ar gael ym mhob ystafell. Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Roedd y cyffuriau brys hefyd wedi'u storio ar y troli dadebru brys. Fodd bynnag, ni allem fod yn sicr bod y cyfarpar hwn yn cael ei archwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn briodol i'w ddefnyddio. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwelsom rwydi gwagio mewn argyfwng ar gyfer y pyllau geni yn yr uned. Cawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w defnyddio mewn argyfwng.

Atal cwympiadau

Gwelsom fod asesiad risg ar waith ar gyfer cleifion yn yr uned yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddio'r pyllau geni. Dywedwyd wrthym y rhoddir gwybod am unrhyw achosion o glaf yn cwmpo drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd. Eglurodd y staff y byddai'r system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y cymerir camau priodol.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod ardaloedd clinigol yr uned yn lân ac yn daclus ac roedd y dodrefn a'r ffitiadau yn yr uned mewn cyflwr da, ar y cyfan.

Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo digonol ar gael, gyda phosteri yn cael eu harddangos i hyrwyddo'r weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo fel sbardun gweledol ar gyfer y staff. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, gwelsom gydymffurfiaeth wael â'r safonau o fod yn Noeth o dan y Penelin¹⁰. Nododd y tîm arolygu hefyd, ym mhob rhan o'r uned, nad oedd llawer o gel saniteiddio alcohol ar gael er mwyn helpu i leihau'r risg o haint i'r cleifion ac ymwelwyr â'r adran.

Dywedwyd wrthym fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan y bwrdd iechyd yn ddiweddar a dangoswyd y canlyniadau i ni. Gwelwyd bod cydymffurfiaeth yn dda a bod unrhyw welliannau a nodwyd wedi cael eu gwneud mewn ffordd amserol. Gwelsom fod amserlenni glanhau ar gyfer yr uned ar waith ac yn cael eu cwblhau gan y bydwagedd yn gyson. Gwelsom hefyd fod labeli penodol ar gyfarpar i ddynodi ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio. Eglurodd y staff y byddai unrhyw bryderon a godir ynglŷn ag atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeirio at uwch-aelodau o'r staff.

Roedd rhai ystafelloedd ochr yn yr uned ar gael i'r cleifion eu defnyddio pe bai angen lleihau'r risg o haint a helpu i atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo i'r cleifion eraill. Dywedwyd wrthym fod y pyllau geni'n cael eu glanhau bob dydd a bod profion dŵr rheolaidd yn cael eu cynnal, fel y nodir yn y canllawiau. Fodd bynnag, gwelodd y tîm arolygu geblau wedi'u staenio gan waed mewn ystafell eni. Cafodd y mater hwn ei uwchgyfeirio at y fydwraig â chyfrifoldeb a chafodd y staeniau eu dileu ar unwaith.

Gwelsom finiau offer miniog ym mhob rhan o'r uned. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf wedi cael eu llofnodi pan gafodd y biniau eu creu a gwelsom eu bod

¹⁰ Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

ar agor led y pen, a oedd yn golygu ei bod yn hawdd cael gafael ar y gwastraff ynddynt.

Er bod yr uned yn cael ei glanhau'n ddigonol ar y cyfan, gwelsom fod rhai ardaloedd yn yr uned lle nad oedd yr amserlen lanhau wedi cael ei chwblhau gan y glanhawyr domestig. At hynny, nid oedd fawr ddim tystiolaeth bod archwiliadau glanhau misol yn cael eu cynnal gan y bwrdd iechyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod y staff yn cydymffurfio â'r safonau o fod yn Noeth o dan y Penelin
- Bod gel saniteiddio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned
- Bod offer miniog gwastraff yn cael eu storio'n briodol
- Bod yr amserlenni a'r archwiliadau glanhau'n cael eu cwblhau'n briodol.

Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar y ffordd roedd anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu yn ystod y dydd a'r nos.

Roedd cyfleusterau ar gael yn yr uned i brynu diodydd os oedd angen. Gwelsom y cleifion yn cael cynnig diodydd poeth ac oer ac roedd jygiau dŵr o fewn cyrraedd hawdd. Gallai staff yr uned ddefnyddio cyfleusterau i wneud tost a diodydd i'r cleifion y tu allan i oriau craidd. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y bwyd a'r diodydd a oedd ar gael o safon uchel.

Yng nghofnodion gofal y cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod gofynion maeth y cleifion yn cael eu dogfennu'n dda.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn yr uned. Gwelsom anghysondebau ym mhob rhan o'r uned o ran yr archwiliadau dyddiol a oedd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell storio meddyginiaeth. Roedd hyn yn golygu na allem fod yn sicr bod unrhyw anghysondebau o ran tymereddau yn cael eu nodi a'u huwchgyfeirio.

Gwnaethom nodi hefyd fod anghysondebau o ran yr archwiliadau dyddiol a oedd yn cael eu cynnal o'r cyffuriau a reolir yn yr uned.

Ystyriodd y tîm arolygu'r trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau'n ddiogel ym mhob rhan o'r uned a gwelsom fod nifer o feysydd lle nad oedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel i atal unrhyw fynediad anawdurdodedig a chadw'r cleifion yn ddiogel. Canfuwyd Ethyl Clorid (oerydd croen i reoli poen mewn cleifion sy'n cael gwythïen-bigiadau) yn ystafell amlbwrpas lân yr uned eni. Gwelsom hefyd fod llawer iawn o ampylau lignocaine yn cael eu storio mewn troliâu heb eu cloi yn y coridor heb ei ddiogelu sy'n cysylltu â'r theatr.

Adolygodd y tîm arolygu y broses o ran ysgogi cyfnod esgor, a nodwyd bod meddygon yn rhagnodi PROPESS a Prostaglandins (hormonau a ddefnyddir wrth ysgogi cyfnod esgor i agor ceg y groth). Fodd bynnag, gwelsom fod y rhain yn cael eu rhagnodi heb unrhyw awgrym na chyfarwyddyd o ran y gofynion ar gyfer rhoi'r meddyginiaethau, a oedd yn groes i ganllawiau cenedlaethol. Dywedodd y staff wrthym y tybir bod y fydwraig sy'n gofalu am y fenyw sy'n esgor yn gwybod pryd i ddefnyddio pa feddyginiaeth. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod yr arfer hon yn anniogel oherwydd y risg y byddai meddyginiaeth yn cael ei rhoi i glaf yn anghywir neu'n amhriodol.

Ystyriwyd y trefniadau a oedd ar waith ar gyfer cadarnhau canlyniadau'r cleifion yn ardal brysbennu'r uned y tu allan i oriau. Gwelsom na fyddai'r staff meddygol yn mynd ar drywydd canlyniadau fel mater o drefn. Fodd bynnag, er mwyn atal unrhyw broblemau rhag codi, byddai'r staff yn gofyn i'r cleifion ffonio'r uned er mwyn cadarnhau eu canlyniadau eu hunain. Yn y cyfarfodydd trosglwyddo y buom yn bresennol ynddynt, gwelsom nad oes unrhyw broses strwythuredig ar waith er mwyn sicrhau bod gwaith dilynol yn cael ei wneud ar brofion blaenorol a gynhaliwyd.

Ymdriniwyd â'n pryderon ynghylch storio/rheoli a rhagnodi meddyginiaeth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a gwelsom fod y mwyafrif ohonynt wedi cael eu cwblhau'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y presgripsiynau yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi. Gwelsom anghysondebau hefyd o ran adnodd sgorio poen yn cael ei gwblhau ar Ward 21. Roedd polisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd ar gael yn electronig ac roedd hefyd yn cael ei storio mewn ffeil yn ardaloedd yr uned. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i hyn pan fydd angen.

Roedd cymorth fferyllol ar gael ar gyfer yr uned ac roedd proses gyfrifiadurol y tu allan i oriau ar gael i'r staff weld cyflenwad ac argaeledd cyffuriau yn yr ysbyty yn ystod yr adegau hyn, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw oedi wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion. Roedd gan yr uned gyflenwad o feddyginiaeth y gallai'r cleifion fynd â hi adref gyda nhw hefyd, a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn gallu cael eu rhyddhau'n amserol. Dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym fod archwiliad fferylliaeth blaenorol wedi'i gwblhau gyda chanlyniadau gwael ac nad oedd unrhyw wersi wedi'u dysgu yn sgil yr archwiliad hwnnw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod drysau i'r ystafelloedd meddyginiaeth/cofnodion yn cael eu cloi er mwyn cynnal diogelwch
- Bod archwiliadau rheolaidd o siartiau rhagnodi yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gywir
- Bod yr holl wersi a ddysgwyd o archwiliadau fferylliaeth yn cael eu nodi a'u rhannu â'r staff.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu'n orfodol, a chadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd bydwraig ddiogelu arweiniol wedi'i phenodi ar gyfer y bwrdd iechyd, a fyddai'n rhoi cymorth a hyfforddiant i'r staff. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant diogelu yn cynnwys arweiniad ar anffurfio organau cenhedlu menywod, cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod, yn ogystal â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwylio diogelu ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael eu hannog i drafod materion mewn sesiwn goruchwylio grŵp. Roedd goruchwylio diogelu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno'n

ddiweddar, ac roedd yn orfodol i'r staff fynd i ddwy sesiwn y flwyddyn. Roedd y bwrdd iechyd wedi dechrau cyflwyno'r broses i'r bydwagedd cymunedol yn ddiweddar, gyda'r bwriad o'i hymestyn i weddill y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i roi gwybod i'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â derbyn cleifion i'r uned, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn modd priodol.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer archwilio cyfarpar dadebru yn yr uned. Gwelsom fod archwiliadau o'r cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig¹¹ a'r cyfarpar dadebru brys ar gyfer oedolion ym mhob rhan o'r uned yn cael eu cofnodi'n anghyson, ac nad oedd y cofnodion yn dangos bod archwiliadau wedi cael eu cynnal yn ddyddiol. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Gwneir argymhelliad ychwanegol yn adran 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn ynglŷn â goruchwyllo'r gwaith o archwilio'r cyfarpar o ddydd i ddydd.

Gwelsom fod archwiliadau o gyfarpar arall, fel peiriannau monitro pwysedd gwaed, yn cael eu cynnal mewn modd cyson a rheolaidd.

Dywedwyd wrthym fod y gwely gwreiddiol a neilltuwyd i'r ystafell brysbennu wedi torri ac nad oedd un newydd wedi cael ei roi yn ei le. Rydym ar ddeall bod y staff yn defnyddio'r gwely pwytho o'r uned a arweinir gan fydwagedd nad oedd yn briodol pan oedd cleifion yn cael eu gweld yn y ddwy ardal.

¹¹ Dyfais i'w chael yn ystod esgor a geni, sy'n cyfuno llwyfan therapi cynhesu effeithiol ynghyd â'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer argyfwng clinigol a dadebru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwely brysbennu newydd yn cael ei roi yn lle'r un presennol er mwyn sicrhau bod digon o gyfarpar ar gael.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Oherwydd ein pryderon uniongyrchol a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, ni chawsom sicrwydd y gellid darparu gofal cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser, a hynny oherwydd y materion canlynol:

- Archwiliadau annigonol o gyfarpar brys
- Roedd rhagnodi meddyginiaeth i ysgogi cyfnod esgor yn agored i ddehongliad amrywiol
- Nid oedd gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu bob amser
- Nid oedd gweithgareddau ar y wardiau'n cael eu goruchwylio'n ddigonol gan reolwyr i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau hanfodol yn cael eu dilyn i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Fodd bynnag, roedd yn galonogol gweld bod y staff wedi ymateb yn gyflym i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym.

Adolygwyd yr hyfforddiant a'r gweithdrefnau a oedd yn cael eu dilyn wrth adolygu canlyniadau Cardiotocograffeg (CTG) ¹² cleifion mewnol. Dywedodd y staff wrthym, am fod olinau CTG yn cael eu harddangos yn ganolog ar y monitor yn yr ystafell goffi, fod tuedd ar adegau i adolygu olinau CTG ar wahân ar y monitor

¹² Dull technegol o gofnodi curiad calon y ffetws a chyfangiadau crothol yn ystod beichiogrwydd yw cardiotocograffeg (CTG).

yn hytrach nag wrth ochr y gwely ar y cyd ag adolygiad o'r claf a'r darlun clinigol llawn. Canmolodd y staff y cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol rheolaidd a oedd yn cael eu cynnal yn yr ystafelloedd esgor. Fodd bynnag, ni allem weld unrhyw dystiolaeth bod y cyfarfod hwn wedi'i gynnal yn ystod y tair wythnos diwethaf.

Gwelsom y staff yn blaenoriaethu anghenion clinigol a gofal cleifion yn effeithiol yn yr uned. O gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym, roedd yn amlwg bod blaenoriaethu angen clinigol yn flaenllaw wrth gynllunio gofal. Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn gallu ei roi i'w cleifion. Gwelsom fod y cleifion yn yr uned i'w gweld yn gyfforddus a'u bod yn cael gofal da. Byddai dulliau lleddf poen ar gael i'r cleifion yn ystod y cyfnod esgor. Gwelsom dystiolaeth dda hefyd o gynlluniau asesu a thriniaeth feddygol yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Gwelsom fod cydgysylltydd bwydo ar y fron wedi'i benodi. Cadarnhaodd y staff a'r cleifion fod cymorth bwydo ar y fron yn dda iawn. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym fod y llwyth gwaith sylweddol yn golygu bod gwelededd y cydgysylltydd bwydo ar y fron wedi lleihau'n fawr yn yr uned.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth bwydo ar y fron yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd bydwaig ymchwil glinigol a gwelliant arweiniol yn cael ei chyflogi, a oedd yn gweithio ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd.

Dywedwyd wrthym fod prosiectau i gefnogi addysg o ran y protocol asesu twf a'r pwysau gorau posibl o ran beichiogrwydd (GAP a GROW)¹³, epilepsi mewn

¹³ GAP - Protocol Asesu Twf – GROW – Y pwysau gorau posibl o ran beichiogrwydd (Gweithdrefn sydd â'r nod o fonitro problemau posibl yn ystod beichiogrwydd, yn benodol i fenywod sydd wedi rhoi genedigaeth i fabanod bach yn y gorffennol)

cleifion, adolygu dogfennaeth yn llawn a chreu llwybrau gofal ym mhob rhan o'r uned wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau i benodi hyrwyddwyr arloesedd sy'n fydwragedd ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a fyddai'n cael eu hannog i ymgysylltu ag aelodau o'r tîm ehangach a'u cefnogi mewn prosiectau gwasanaeth ac ymchwil.

Gwelsom fod bydwaig datblygu ymarfer mamolaeth y bwrdd iechyd yn hybu Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol (PROMPT)¹⁴, yn barhaus a oedd wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus yn y gwasanaethau mamolaeth ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â Rheoliadau Llywodraethu Gwybodaeth a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (2018) yn yr uned. Yn yr uned esgor, gwelsom nad oedd gwybodaeth cleifion yn cael ei rheoli na'i storio'n ddiogel i atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd hyn yn cynnwys trolïau a oedd yn cynnwys cofnodion nifer o gleifion nad oeddent wedi'u cloi a gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion a oedd wedi'i gadael ar ddesg yng ngweithfan y nyrsys. Roedd y rhain i gyd wedi'u lleoli mewn coridor y gall cleifion/ymwelwyr ei gyrraedd yn hawdd. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Roedd y fewnwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gydag amrywiaeth eang o bolisiau a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol clinigol yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd nifer o'r rhain yn gyfredol mwyach a bod angen eu hadolygu.

Gwelsom fod yr uned yn defnyddio dangosfwrdd mamolaeth. Adnodd electronig yw hwn i fonitro perfformiad clinigol eu gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu llywodraethu. Mae hyn hefyd yn helpu i nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion fel y gellir cymryd camau gweithredu amserol a phriodol i sicrhau gofal o ansawdd uchel. Dywedwyd wrthym fod gan yr holl staff yn yr uned fanylion

¹⁴ PROMPT – Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol. Mae'n bwysig hyfforddi timau i weithio fel timau yn eu hamgylchedd gwaith.

mewngofnodi i gyfrifiadur er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei llywodraethu. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn gallu cael mynediad at y porth clinigol, lle y caiff canlyniadau profion eu cadw. Teimlwyd bod hyn yn cael effaith andwyol ar y gofal a ddarperir, gan achosi oedi wrth gynllunio gofal a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn effeithlon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol
- Bod y staff yn gallu cael gafael ar ganlyniadau profion yn amserol drwy'r system wybodaeth briodol.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod safon y gwaith o gadw cofnodion yn ddigonol, gyda chynlluniau gofal wedi'u dogfennu'n dda rhwng timau amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, roedd rhai cofnodion cleifion a welsom yn anhrefnus ac yn anodd eu defnyddio. Gwelsom fod siartiau arsylwi a bwndeli llwybr gofal priodol yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, er i ni weld bod mesurau atal wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau na fyddai'r cleifion yn datblygu Thromboembolws Gwythiennol (VTE)¹⁵ yn yr uned, nid oedd asesiadau risg wedi cael eu cofnodi er mwyn dangos y rheswm dros hyn.

Gwelsom anghysondebau hefyd yn y cofnodion iechyd meddygol a adolygwyd gennym gyda bylchau mewn meysydd megis llofnodion a dogfennaeth rhif cofrestru'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos yr holl ofal a thriniaethau a ddarperir a'u bod yn cyd-fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol. Dylai hyn hefyd gynnwys y gallu i adnabod pob gofalwr clinigol

¹⁵ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng89/chapter/Recommendations#risk-assessment>

drwy edrych ar ei enw mewn llythrennau breision a'i rif Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd bydwragedd arbenigol wedi cael eu penodi ar draws y bwrdd iechyd, a nodwyd gennym eu bod yn adnoddau defnyddiol a gwybodus ar gyfer timau'r uned.

Nododd y staff fod gwaith tîm amlddisgyblaethol da ar waith, a gwelsom dystiolaeth i gefnogi hyn.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth dda ymhlith timau bydwreigiaeth a meddygol o fewn yr uned.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor o waith ar ganfyddiadau archwilio.

Gwelsom hefyd fylchau o ran hyfforddiant, dysgu a staffio yr oedd angen eu hadolygu ymhellach.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfod adolygu archwiliadau misol a chyfarfod adolygu digwyddiadau o safbwynt clinigol obstetrig. Roedd hefyd fforymau sgrinio uwchsain, ward esgor, ôl-enedigol a newydd-anedig misol a chyfarfod amlddisgyblaethol wythnosol.

Gwelsom fod gweithgarwch archwilio'n mynd rhagddo a oedd yn cael ei fonitro a'i gyflwyno mewn cyfarfodydd a fforymau ansawdd, diogelwch a risg priodol. Fodd bynnag, ar ôl siarad â'r staff, gwelsom fod angen gwella'r broses archwilio mewn perthynas â gwaith dilynol a nodwyd drwy weithgarwch archwilio, a bod angen gwneud mwy o waith i gryfhau'r sicrwydd yn y maes hwn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd dangosfwrdd mamolaeth yn cael ei gynhyrchu bob mis, a oedd yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r bwrdd iechyd cyfan, ond wedi'i dadansoddi i gynnwys gwybodaeth am bob ysbyty unigol. Roedd y dangosfwrdd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch clinigol, ysgogi cyfnod esgor a dangosyddion a digwyddiadau clinigol. Roedd y dangosfwrdd yn cael ei osod yn goch, yn felyn neu'n wyrdd yn dibynnu ar lefel y risg a oedd yn gysylltiedig â'r niferoedd a'r ffigurau.

Yn ogystal, cadarnhaodd yr uwch-dîm rheoli fod camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol, fel Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol (MBRRACE)¹⁶ ac Each Baby Counts,¹⁷ yn cael eu datblygu yn yr uned. Y nod yw gwella gofal a phrofiad cleifion a'r broses o adrodd ar ddiogelwch cleifion a chamau i leihau risg yn y dyfodol. Mae cyrff archwilio cenedlaethol perthnasol fel MBRRACE yn dilysu'r gwaith hwn yn allanol bob blwyddyn, a gwneir gwaith parhaus i sicrhau bod yr uned yn cydymffurfio â'r argymhellion a wneir.

Roedd y bwrdd iechyd yn dangos proses glir a chadarn o ran rheoli digwyddiadau clinigol. Roedd bydwraig llywodraethu arweiniol wedi'i chyflogi, a oedd yn gyfrifol am adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau clinigol a'u rheoli ar draws y bwrdd iechyd. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau ac nad oedd y rhain yn cael eu trin mewn modd cosbol byth. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw nad oedd pob un ohonynt wedi cael hyfforddiant Datix (system rheoli digwyddiadau electronig) ac nad oeddent yn gwybod pryd y dylent uwchgyfeirio pryderon.

Roedd cyfarfodydd risg a llywodraethu misol yn cael eu cynnal ym mhob un o dri safle'r bwrdd iechyd lle câi digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau eu trafod mewn fformat amlddisgyblaethol.

¹⁶ MBRRACE – Mamau a Babanod: Mae MBRRACE (Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol) ar waith ledled y DU gyda'r nod o gyflwyno gwybodaeth gadarn i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau mamolaeth, newydd-anedig a babanod diogel, teg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

¹⁷ Each Baby Counts – rhaglen gwella ansawdd genedlaethol Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr i leihau nifer y babanod sy'n marw neu sy'n dioddef anabledd difrifol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod esgor.

Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cynhyrchu a bod gwybodaeth/gwersi yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu. Roedd y fydwraig llywodraethu arweiniol yn cyflwyno themâu a thueddiadau yn y cyfarfod hwn, gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer roedd angen mynd i'r afael â nhw yn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, tynnodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw sylw at anghysondebau o ran y ffordd roedd gwersi yn cael eu dysgu a'u rhannu â'r holl dimau. Serch hynny, gwelsom dystiolaeth o gylchlythyr misol llawn gwybodaeth a ystyrir yn ffordd dda o roi adborth cadarnhaol i'r staff, ac yn ffordd o dynnu sylw at enghreifftiau o arferion da.

Cawsom sicrwydd bod y gofrestr risg fewnol yn cael ei monitro a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn ôl yr angen.

Dywedodd y staff fod yr arweinyddiaeth ddyddiol yn yr uned yn dda iawn. Fodd bynnag, dywedodd y staff, er eu bod yn gwybod y byddai'r rheolwyr ar gael i siarad â nhw dros y ffôn pe bai angen, nad oeddent yn weladwy iawn yn yr uned.

Gwelsom fod gwaith da yn cael ei wneud gan y fydwraig ymgynghorol i sicrhau arfer arbenigol, megis datblygu dulliau ymgysylltu â defnyddwyr, datblygu gwasanaeth strategol a chreu llawer o fentrau hyfforddi er mwyn gwella dysgu a datblygiad.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod gwersi/camau dilynol a nodwyd o bryderon, archwiliadau a gweithgarwch gwella arall yn cael eu dysgu/cymryd a'u rhannu'n gyson
- Bod yr holl aelodau priodol o'r staff yn cael hyfforddiant ar sut a phryd i roi gwybod am ddigwyddiadau drwy Datix
- Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i wella gwelededd uwch-aelodau o'r staff yn yr uned.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Dosbarthwyd mwy na 30 o holiaduron staff yn ystod yr arolygiad. Fodd bynnag, dim ond pump a gwblhawyd ac a ddychwelwyd.

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr arweinyddiaeth a'r cymorth gan reolwyr llinell uniongyrchol, yn bersonol ac o safbwynt gwaith, yn rhagorol. Gwelwyd bod gwaith tîm da yn cael ei annog gan yr holl uwch-reolwyr. Cadarnhawyd hyn gan y staff y gwnaethom siarad â nhw a'r rhai a gwblhaodd holiadur.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y rotas bydwagedd yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Os oedd prinder staff cyflenwi, dywedwyd wrthym fod bydwagedd cymunedol yn cael eu galw i mewn. At hynny, dywedodd yr uwch-reolwyr y byddent hefyd yn cyflenwi yn ôl yr angen. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod problemau o ran cyflenwi bydwagedd yn digwydd yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod llawer o salwch hirdymor yn y tîm meddygol a swyddi gwag, er bod hyn yn cael ei reoli'n dda yn ôl pob golwg. Gwelsom fod prosesau uwchgyfeirio ar waith i'w defnyddio ar adegau pan fydd prinder staff, ac roedd pob aelod o staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i ddod o hyd i'r polisi a sut i uwchgyfeirio materion. Yn dilyn trafodaethau mewn perthynas â staffio dros dro, ni chawsom sicrwydd fod y gyfarwydddeb oriau gwaith¹⁸ yn cael ei monitro'n effeithiol, lle roedd staff yn gweithio y tu hwnt i'w horiau gwaith craidd.

Gwelsom dystiolaeth fod rhaglen sefydlu gadarn ar waith ar gyfer y bydwagedd, a dywedodd y staff bod y rhain o fudd pan oeddent yn dechrau yn eu rôl. Fodd bynnag, nid oedd pecynnau sefydlu ar gael ar gyfer staff meddygol newydd, er i ni weld bod hyfforddiant a mentoriaeth barhaus ar waith ar gyfer staff meddygol. Cadarnhaodd y staff meddygol y gwnaethom siarad â nhw fod yr hyfforddiant, y cymorth a'r arweiniad o safon uchel iawn. Gwelwyd bod hyn yn wir hefyd yn y cyfweiliadau a gynhaliwyd â staff eraill. Dywedodd y staff bydwreigiaeth wrthym hefyd fod angen gwella'r rhaglen breceptorïaeth er mwyn sicrhau bod aelodau newydd o'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd yn cael ei gwblhau ar-lein yn bennaf, fel hyfforddiant ar iechyd a diogelwch, diogelwch tân, atal heintiau a diogelu, a chaiff ei fonitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt pan fydd eu

¹⁸Cyfraith sy'n nodi nad yw staff yn cael gweithio mwy na 48 awr mewn wythnos gwaith er mwyn cynnal diogelwch a llesiant staff.

hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau bod sesiynau ail-hyfforddi yn cael eu cwblhau o fewn amserlenni priodol. Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r cofnodion hyfforddiant a siarad â'r staff, gwelsom nad oedd hyfforddiant ym maes Cardiocograffeg (CTG) yn gyson ac roedd y gyfradd cydymffurfio yn wael.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol sy'n ymwneud â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Mae un o'r diwrnodau hyn yn cynnwys hyfforddiant PROMPT, sef digwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol a ddefnyddir er mwyn annog gweithio amlddisgyblaethol mewn achosion brys. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mynychu'r hyfforddiant hwn pan fyddant yn gallu a'i fod yn ddefnyddiol iawn. Dangoswyd ffigurau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant PROMPT i ni a chawsom sicrwydd bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei gynnal. Cadarnhawyd hyn hefyd yn holiaduron y staff a ddaeth i law.

Roedd y bwrdd iechyd yn defnyddio bydwraig arweiniol ar gyfer addysg ymarfer/hwyluso ymarfer, a rhan o'i rôl oedd monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. Mae angen i'r staff drefnu eu bod yn mynychu'r diwrnodau hyfforddi perthnasol, a rhoddir gwybod i'r uwch-dimau am bresenoldeb y staff.

Roedd goruchwylwyr clinigol i fydwagedd ar waith ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd a dywedwyd wrthym eu bod yn uchel eu parch. Eu rôl oedd darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth broffesiynol i'r staff bydwreigiaeth. Mae targed cenedlaethol¹⁹ i sicrhau bod y goruchwylwyr yn cyfarfod â'r bydwagedd am gyfanswm o bedair awr bob blwyddyn. Mae'r bwrdd iechyd yn monitro cydymffurfiaeth â'r targed hwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn parhau i'w monitro'n barhaus.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a'u bod yn eu hystyried yn gyfarfodydd cadarnhaol er mwyn gwella datblygiad proffesiynol parhaus, a chadarnhawyd hyn yn y data cydymffurfio a welsom.

¹⁹<https://lyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/goruchwyliaeth-glinigol-i-fydwagedd- yng-nghymru.pdf>

Gwelsom fwrdd Greatix (cronfa ddata electronig ar gyfer arfer/gofal da) yn ardal y staff yn yr uned a oedd yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Gwelsom hefyd fod bwrdd yn cael ei arddangos a oedd yn cyhoeddi 'bydwraig y mis', a oedd yn gadarnhaol iawn yn ein barn ni.

Gwelsom fod y bydwagedd arbenigol arweiniol yn darparu lefel dda o gymorth a'u bod yn wybodus am eu rolau arbenigol. Mae'r arweinwyr hyn yn rhoi cymorth ac arweiniad drwy ddiwrnodau astudio, sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd â'r staff yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod nyrsys meithrin wedi'u cyflogi o fewn y gwasanaethau a gwelsom hefyd fod gweithwyr cymorth mamolaeth yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau i'r cymhwyster nesaf. Byddai hyn yn golygu y gellid rhoi mwy o gymorth i'r bydwagedd a mamau newydd mewn meysydd megis bwydo ar y fron, ymolchi ac anghenion gofal cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod nifer y bydwagedd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod safonau staffio diogel yn cael eu cyrraedd
- Bod y rhaglen breceptorïaeth i fydwagedd yn cael ei hadolygu
- Bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant CTG yn gwella.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Gwasanaeth: Ysbyty'r Tywysog Siarl

Maes: Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiadau arolygu: 4-6 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Dd/G			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Arolygiad o Ysbyty: Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Maes: Ysbyty'r Tywysog Siarl - Uned Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiad Arolygu: 4 – 6 Tachwedd 2019

Rhoi gofal diogel ac effeithiol				
Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i wneud y canlynol:	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Rhannwyd adborth uniongyrchol ar y canfyddiadau a'r disgwyliadau o ran archwiliadau diogelwch â'r staff drwy nodyn briffio ar ddiogelwch.	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 05/11/2019
Sicrhau y caiff y cyfarpar dadebru brys ar gyfer babanod newydd-anedig a'r cyfarpar dadebru brys ar gyfer oedolion eu harchwilio bob dydd yn	2.9 Dyfeisiau, Offer a Systemau Diagnostig Meddygol	Pwysleisiwyd i'r staff mamolaeth drwy nodyn briffio	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 05/11/2019

<p>unol â pholisi'r bwrdd iechyd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.</p>		<p>ar ddiogelwch mai nhw sy'n gyfrifol am archwilio'r troliâu newyddenedigol. Mae hyn wedi cael ei ychwanegu at y llyfrau archwiliadau dyddiol.</p> <p>Caiff y camau gweithredu hyn eu monitro drwy'r archwiliadau sicrwydd a gynhelir gan arweinwyr gweithredol pob un o'r meysydd.</p>	<p>Bydwragedd arweiniol gweithredol</p>	<p>Cwblhawyd 12/11/2019</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel bob amser.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Cymerwyd camau ar unwaith er mwyn sicrhau bod y cyffuriau brys a gaiff eu paratoi ar gyfer y theatr obstetrig yn cael eu storio'n ddiogel.</p> <p>Cafodd yr angen i storio meddyginiaethau brys yn ddiogel yn ardaloedd theatrau ei gyfleu drwy nodyn briffio ar ddiogelwch.</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 05/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 05/11/2019</p>

		<p>Mae cydymffurfiaeth â'r argymhelliad yn cael ei monitro drwy'r archwiliadau sicrwydd.</p> <p>Mae'r troli a ddefnyddir i storio cyffuriau ar gyfer triniaethau epidwral bellach yn cael ei storio'n ddiogel yn yr ystafell triniaeth glinigol dan glo ar y ward esgor.</p> <p>Mae cydgysylltwyr y ward esgor yn ymgymryd â gwaith monitro er mwyn sicrhau bod y troli'n cael ei storio'n ddiogel pan na fydd yn cael ei ddefnyddio gan yr anesthetydd.</p>	<p>Bydwraig arweiniol yn ystod genedigaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Cydgysylltydd y ward esgor</p>	<p>Cwblhawyd 12/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 05/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 12/11/2019</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Rhoddwyd gwybod i'r staff fod angen gwirio cyffuriau a reolir bob tro y trosglwyddir sifft drwy'r nodyn briffio ar ddiogelwch.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 05/11/2019</p>

Bod gwiriadau o gyffuriau a reolir yn cael eu cynnal yn unol â'r polisi bob amser.		Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy'r archwiliadau sicrwydd a gynhelir gan yr arweinwyr gweithredol	Arweinwyr Gweithredol	Cwblhawyd 12/11/2019
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar dymereddau priodol a bod gwiriadau rheolaidd o dymereddau oergelloedd meddyginiaeth yn cael eu cynnal yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Bellach, mae taflen wirio sy'n cofnodi'r tymereddau yn ogystal â dogfennu'r camau a gymerir pan nad yw'r tymereddau o fewn y terfynau y cytunwyd arnynt wedi'i gosod ar bob oergell gyffuriau yn yr uned famolaeth. Cafodd y gofyniad hwn ei gyfleu i bob aelod o'r staff drwy'r nodyn briffio ar ddiogelwch a ddsbarthwyd y diwrnod y rhannodd AGIC y camau diogelwch uniongyrchol.</p> <p>Caiff hyn ei fonitro drwy'r archwiliadau sicrwydd.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a bydwagedd arweiniol gweithredol</p> <p>Bydwagedd arweiniol gweithredol</p>	<p>Cwblhawyd 05/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 12/11/2019</p>
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Anfonwyd gohebiaeth at bob aelod o'r staff drwy'r nodyn briffio ar ddiogelwch ynglŷn	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 05/11/2019

<p>camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod y broses o ragnodi meddyginiaeth ysgogi cyfnod esgor yn cael ei hadolygu, er mwyn lleihau'r risg o gamgymeriadau o ran rhoi'r feddyginiaeth.</p>		<p>â'r broses o dderbyn menywod i'r ysbyty a gynlluniwyd ymlaen llaw er mwyn ysgogi cyfnod esgor. Mae siartiau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau cyn i'r claf gael ei derbyn i'r ysbyty drwy nodi Propess a Prostin. Mae canllawiau yn nodi y dylid rhoi "naill ai/neu" ar sail Sgôr Bishop pan fydd claf yn cael ei derbyn i'r ysbyty.</p> <p>Mae canllawiau wedi'u hanfon at y staff yn gofyn iddynt sicrhau bod siartiau meddyginiaeth yn nodi'n glir bod naill ai Propess neu Prostin yn cael ei roi i'r claf. Mae sticer rhagnodi newydd wedi cael ei ddatblygu a'i roi ar flaen y siart meddyginiaeth yn yr adran sylwadau i ddangos bod Propess neu Prostin yn cael ei roi ar sail Sgôr Bishop.</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 05/11/2019</p>
---	--	---	---	---------------------------------

<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod system briodol ar waith er mwyn sicrhau y caiff canlyniadau profion eu hadolygu ar gyfer cleifion a welir y tu allan i oriau brysbennu, er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch y cleifion.</p>	<p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Mae'r uned wedi datblygu system ar gyfer cael gafael ar ganlyniadau unrhyw fenywod sy'n mynd i'r ardal brysbennu yn ystod beichiogrwydd. Mae'r system hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r fydwraig gofnodi manylion y fenyw a'r profion a gynhaliwyd. Y fydwraig brysbennu sy'n gyfrifol wedyn am gael y canlyniadau – a dogfennu'r camau a gymerwyd.</p> <p>Mae'r system newydd hon yn cael ei monitro gan y fydwraig arweiniol yn ystod genedigaeth a'r fydwraig weithredol ar gyfer y ward esgor.</p>	<p>Y Fydwraig Arweiniol yn ystod Genedigaeth</p> <p>Y Fydwraig Arweiniol yn ystod Genedigaeth</p>	<p>Cwblhawyd 07/11/2019</p> <p>12/11/2019</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p>	<p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Hysbyswyd y staff am ganfyddiadau'r tîm adolygu a gofynnwyd iddynt sicrhau bod pob adolygiad clinigol o</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>Cwblhawyd 12/11/2019</p>

<p>Bod y broses ar gyfer adolygu canlyniadau CTG yn cael ei chynnal yn amserol gyda sicrwydd llywodraethu priodol er mwyn lleihau'r risg i ddiogelwch y cleifion.</p>		<p>brofion CTG yn cael ei gynnal yn yr ystafell gyda'r fenyw lle y bydd ganddynt fynediad llawn at y cofnodion mamolaeth a'r hanes clinigol hefyd.</p> <p>Mae'n rhaid dogfennu cynlluniau rheoli clinigol yn y cofnodion mamolaeth a dylid anodi unrhyw ddigwyddiad arwyddocaol yn y fan a'r lle ar recordiad papur y CTG, er enghraifft, bod epidwral ar waith. Mae hyn wedi'i gyfleu drwy nodyn briffio ar ddiogelwch.</p> <p>Caiff yr arfer hon ei monitro drwy'r cyfarfodydd adolygu clinigol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol</p> <p>Bydwraig arweiniol llywodraethu a phrif obstetregydd y ward esgor</p>	<p>Cwblhawyd 12/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 12/11/2019</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p>	<p>3.5 Cadw Cofnodion</p>	<p>Atgoffwyd y staff o'r gofyniad i gadw cofnodion yr ysbyty yn ddiogel drwy'r nodyn briffio ar ddiogelwch.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 05/11/2019</p>

<p>Bod gwybodaeth cleifion yn cael ei storio'n ddiogel bob amser er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion ac atal mynediad anawdurdodedig.</p>		<p>Atgyweiriwyd y troli nodiadau ar y ward na ellid ei gloi.</p> <p>Mae'r nodiadau a oedd yn cael eu storio o dan weithfan y nyrsys ar y ward wrth aros i'r cofnod ôl-enedigol cymunedol gael ei ffeilio wedi cael eu symud i ardal ddiogel.</p>	<p>Prif nyrs y ward</p> <p>Prif nyrs y ward</p>	<p>Cwblhawyd 05/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 05/11/2019</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Os caiff gweithrediad y system ddiogelwch ar ddrysau'r uned ei atal, mae mesurau ar waith er mwyn lleihau'r risg y caiff babanod eu herwydio.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg</p>	<p>Mae gohebiaeth wedi'i hanfon at y staff i'w hatgoffa o'r risg sy'n gysylltiedig â'r angen i atal gweithrediad y drysau diogelwch mewn argyfwng. Mae hyn hefyd wedi cynnwys rhybuddio'r staff i ddefnyddio'r system hon ar gyfer yr argyfyngau mwyaf difrifol yn unig ac nid fel ffordd o agor y drysau mewn sefyllfa glinigol lai brys.</p> <p>Pan gaiff gweithrediad y drysau ei atal mae'n rhaid i'r staff sicrhau nad oes unrhyw</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 12/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 12/11/2019</p>

		<p>rieni nac ymwelwyr ger y drysau gyda baban a bod aelodau o'r staff wrth y drysau yn ystod yr amser hwn er mwyn atal unigolyn rhag mynd i mewn i'r ward neu ei gadael yn hawdd.</p> <p>Mae cynlluniau ar waith i adolygu'r system drysau diogelwch bresennol ac ystyried yr opsiwn i gael un drws wedi'i gloi yn hytrach na'r system drysau dwbl sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd. Bydd hyn yn golygu cynnal adolygiad llawn o'r risgiau sy'n gysylltiedig â chael gwared ar yr ail ddrws.</p> <p>Gofynnwyd i'r tîm ystadau gynnal adolygiad gyda chynllun i osod camerâu diogelwch wrth y ddwy fynedfa.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth/Rheolwr y Gyfarwyddiaeth/Pennaeth Ystadau a Diogelwch</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Gweithredwyd ar y cais 12/11/2019</p> <p>Gweithredwyd ar y cais 12/11/2019</p>
--	--	--	---	---

Cynrychiolydd y Gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Greg Dix

Rôl:

**Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth a
Phrofiad Cleifion**

Dyddiad:

14 Tachwedd 2019

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Maes: Ysbyty'r Tywysog Siarl - Uned Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiad Arolygu: 4 – 6 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am roi'r gorau i smygu ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.	3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	<ul style="list-style-type: none">Mae gwybodaeth am wasanaethau rhoi'r gorau i smygu wedi'i harddangos yn yr uned famolaeth	Bydwraig Iechyd y Cyhoedd	31/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y dull o ddyrannu gwelyau yn y wardiau cynenedigol ac ôl-enedigol yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau y cynhelir urddas y cleifion.	4.1 Gofal Gydag Urddas	<ul style="list-style-type: none">Mae gan y ward famolaeth y lle priodol rhwng y gwelyau ac mae llenni o amgylch pob un o'r gwelyau.Atgoffa'r staff i ddefnyddio swyddfa'r ward neu un ciwbicl os bydd un ar gael i gynnal	Prif Nyrs y Ward Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd 20/11/2019 Cwblhawyd 10/01/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>trafodaethau cyfrinachol â menywod</p> <ul style="list-style-type: none"> Parheir i fonitro profiad menywod o'r ward drwy'r arolygon wythnosol. Rhoddir gwybod am unrhyw adborth gan fenywod mewn perthynas â phryderon ynghylch urddas a phreifatrwydd ar unwaith. 	Y Tîm Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt Cleifion (PALs)	Cwblhawyd 10/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod proses a strwythur cyfarfodydd trosglwyddo amlddisgyblaethol yn cael eu hadolygu a'u gwella.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Anfonwyd nodyn briffio ar ddiogelwch ar unwaith at bob clinigydd i'w atgoffa o'r hyn y mae'n ofynnol iddo ei wneud yn ystod y broses drosglwyddo. Y fydwraig arweiniol yn ystod genedigaeth i gynnal archwiliadau arsylwadol o'r broses drosglwyddo, dogfennu'r canfyddiadau a rhoi adborth i'r timau. 	Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol Y Fydwraig Arweiniol yn ystod Genedigaeth	Cwblhawyd 5/11/2019 31/01/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn disgrifio sut y gall cleifion a theuluoedd/gofalwyr godi pryder am eu gofal yn cael ei harddangos yn glir, a'i bod ar gael yn rhwydd iddynt.	3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Arddangos gwybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr uned famolaeth. 	Bydwraig Profiad Menywod	31/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhoi i gleifion a theuluoedd am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.	3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Arddangos gwybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr uned famolaeth. 	Bydwraig Profiad Menywod	31/01/2020
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiad o'r arfer o fod yn noeth o dan y penelin yn cael ei gynnal.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Cais i archwiliadau rheoli heintiau ac archwiliadau 'noeth o dan y penelin' gael eu cynnal yn amlach er mwyn monitro cydymffurfiaeth. Ailanfon canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar 'noeth o dan y penelin' at staff meddygol er mwyn ailbwsleisio'r gofynion. 	Prif Nyrs y Ward Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 10/01/2020 Cwblhawyd 10/01/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gel saniteiddio dwylo ar gael ym mhob rhan o'r uned.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Gosod teclynnau darparu gel saniteiddio dwylo ychwanegol ym mhob ardal glinigol 	Prif Nyrsys y Ward	31/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod offer miniog gwastraff yn cael eu storio'n briodol.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Atgoffa'r staff o'r gofyniad i reoli offer miniog yn ddiogel (gwnaed hyn ar unwaith ar adeg yr ymweliad) Prif nyrsys y ward i fonitro cydymffurfiaeth o ran storio offer miniog yn ddiogel drwy'r archwiliadau sicrwydd misol 	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Prif Nyrsys y Ward</p>	<p>Cwblhawyd 5/11/2019</p> <p>Cwblhawyd 10/01/2020</p>
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr amserlenni ac archwiliadau glanhau'n cael eu cwblhau'n briodol.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Gofynnwyd i'r adran Gwasanaethau Gwesty gadarnhau dyddiadau archwiliadau glanhau a sicrhau y caiff y sgoriau glanhau eu hanfon i'r Gyfarwyddiaeth. Caiff yr archwiliadau a'r sgoriau glanhau eu monitro drwy gyfarfod Atal a Rheoli Heintiau'r Gyfarwyddiaeth 	<p>Gwasanaethau Gwesty</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 10/01/2020</p> <p>21/01/2020</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drysau i'r ystafelloedd meddyginiaeth/cofnodion yn cael eu cloi er mwyn cynnal diogelwch.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Atgoffa'r staff o'r gofyniad i reoli meddyginiaeth yn ddiogel sy'n cynnwys sicrhau bod drysau wedi'u cloi. Caiff y cam gweithredu hwn ei fonitro drwy'r archwiliadau sicrwydd 	Pennaeth Bydwreigiaeth Prif Nyrsys y Ward	Cwblhawyd 10/01/2020 31/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd o siartiau rhagnodi yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau'n gywir.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<ul style="list-style-type: none"> Mae archwiliadau o siartiau rhagnodi yn cael eu cynnal drwy'r archwiliadau sicrwydd misol. 	Prif Nyrsys y Ward	Cwblhawyd 10/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl wersi a ddysgwyd o archwiliadau fferylliaeth yn cael eu nodi a'u rhannu â'r staff.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi adborth ar ganfyddiadau'r archwiliadau i'r staff ar adeg yr archwiliadau. Os bydd angen cymryd camau unioni, rhaid iddynt gael eu cwblhau ar yr adeg honno. Rhoddir adborth rheolaidd o'r archwiliadau drwy'r cylchlythyr risg 	Prif Nyrsys y Ward Y Fydwraig Risg	28/02/2020 28/02/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwely brysbennu newydd yn cael ei roi yn lle'r un	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Mae gwelyau newydd wedi'u harchebu gan yr adran. 	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd 05/11/2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
presennol er mwyn sicrhau bod digon o gyfarpar ar gael.		<ul style="list-style-type: none"> Gofynnwyd i'r staff sicrhau y rhoddir gwybod i'r uwch-fydwraig am unrhyw gyfarpar sydd wedi cael ei ddifrodi neu sydd wedi torri, er mwyn i rai newydd gael eu darparu ar unwaith. 		Cwblhawyd 10/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cymorth bwydo ar y fron yn cael ei adolygu'n rheolaidd.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Y cydgysylltydd bwydo babanod i adolygu'r cymorth bwydo ar y fron a ddarperir ar hyn o bryd. Mae adnoddau ychwanegol ar gyfer cymorth bwydo ar y fron yn y gymuned wedi'u nodi. Cynhaliodd y fenter Cyfeillgar i Fabanod adolygiad ychwanegol o statws achredu Ysbyty'r Tywysog Siarl ac roedd yn cefnogi statws achredu parhaus y Fenter Cyfeillgar i Fabanod. Cynhelir ailasesiad ym mis Tachwedd 2020 ac mae gwaith i gynnal yr achrediad yn mynd rhagddo. 	<p>Cydgysylltydd Bwydo Babanod</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Cydgysylltydd Bwydo Babanod</p>	<p>Cwblhawyd 05/12/2019</p> <p>Cwblhawyd 05/12/2019</p> <p>Cwblhawyd 31/07/2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r gwasanaethau mamolaeth wedi sefydlu fforymau clinigol y mae canllawiau wedi'u pennu iddynt eu rheoli. Bydd y bwrdd iechyd yn sicrhau y caiff yr holl ganllawiau clinigol eu diweddarau a'u cyfuno ag uned Tywysoges Cymru erbyn diwedd mis Mawrth 2020 	Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol	31/03/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y staff yn gallu cael gafael ar ganlyniadau profion yn amserol drwy'r system wybodaeth briodol.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r uned wedi datblygu system ar gyfer cael gafael ar ganlyniadau unrhyw fenywod sy'n mynd i'r ardal brysbennu yn ystod beichiogrwydd. Mae'r system hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r fydwraig gofnodi manylion y fenyw a'r profion a gynhaliwyd. Y fydwraig brysbennu sy'n gyfrifol wedyn am gael y canlyniadau – a dogfennu'r camau a gymerwyd. Mae'r system newydd hon yn cael ei monitro gan y fydwraig arweiniol 	Y Fydwraig Arweiniol yn ystod Genedigaeth	Cwblhawyd 07/11/2019 31/01/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		yn ystod genedigaeth a'r fydwraig weithredol ar gyfer y ward esgor.	Y Fydwraig Arweiniol yn ystod Genedigaeth	
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos yr holl ofal a thriniaethau a ddarperir a'u bod yn cyd-fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol. Dylai hyn hefyd gynnwys y gallu i adnabod pob gofalwr clinigol drwy edrych ar ei enw mewn llythrennau breision a'i rif Cyngor Meddygol Cyffredinol.	3.5 Cadw Cofnodion	<ul style="list-style-type: none"> Atgoffa'r staff o'r gofynion proffesiynol i gofnodi gofal yn gywir a nodi eu henwau llawn. Caiff safonau dogfennaeth eu monitro drwy'r archwiliadau cadw cofnodion blynyddol 	Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol Goruchwylwyr clinigol bydwragedd	Cwblhawyd 10/01/2020 31/02/2020
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwersi/camau dilynol a nodwyd o bryderon, archwiliadau a gweithgarwch gwella arall yn cael eu dysgu/cymryd a'u rhannu'n gyson.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> Y Gyfarwyddiaeth i barhau i rannu gwersi a ddysgwyd o bryderon/archwiliadau a mentrau gwella eraill yn y fforymau proffesiynol ac yn ystod y diwrnodau llywodraethu. Y Gyfarwyddiaeth i barhau i roi adborth drwy'r cylchlythyr risg 	Pennaeth Bydwreigiaeth Cyfarwyddwr Clinigol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth.	Cwblhawyd 05/11/2019 Cwblhawyd 10/01/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl aelodau priodol o'r staff yn cael hyfforddiant ar sut a phryd i roi gwybod am ddigwyddiadau drwy Datix.	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> Darparu hyfforddiant blynyddol i'r staff ar Datix a rhoi gwybod am ddigwyddiadau. Mae hyn yn cynnwys y rhestr sbarduno mamolaeth a gwybodaeth am sut i gael gafael ar yr adborth a anfonwyd. 	Y Fydwraig Risg	31/03/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i wella gwelededd uwch-aelodau o'r staff yn yr uned.	7.1 Y Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Nod yr uwch-dîm bydwreigiaeth yw bod yn weledol yn yr uned pan na fyddant yn yr uned – rhoddir gwybod i'r staff â phwy y gallant gysylltu os bydd angen. 	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 10/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod nifer y bydwagedd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod safonau staffio diogel yn cael eu cyrraedd.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol 7.1 Y Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Asesiad Birth rate + wedi'i gwblhau ac mae gofynion staffio yn seiliedig ar y galw ar y gwasanaeth wedi'u cyfrifo. 	Pennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 07/01/2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y rhaglen breceptorïaeth i fydwragedd yn cael ei hadolygu.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol 7.1 Y Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Y bydwagedd datblygu ymarfer i gynnal adolygiad o'r rhaglen breceptorïaeth bresennol a fydd yn cynnwys y bydwagedd newydd gymhwyso er mwyn 	Y Bydwagedd Datblygu Ymarfer	28/02/2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		sicrhau y caiff eu barn a'u hanghenion eu cynnwys yn y rhaglen.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant CTG yn gwella.	3.1 Gofal Diogel a Clinigol Effeithiol 7.1 Y Gweithlu	<ul style="list-style-type: none"> Dosbarthu sesiynau hyfforddi CTG i bob aelod o'r staff nad ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant eto. Trafod gweithgarwch monitro cydymffurfiaeth wythnosol yn y cyfarfodydd monitro gyda Llywodraeth Cymru Nod y gwasanaeth yw cwblhau'r holl hyfforddiant erbyn mis Mawrth 2020 	Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol	Cwblhawyd 07/01/2020 31/03/2020

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):

Jane Phillips

Teitl swydd:

Pennaeth Bydwreigiaeth

Dyddiad:

10/01/2020

